

ATGOFION O'R BORTH

Cymdeithas Ddinesig Bro Porthaethwy

Menai Bridge and District Civic Society

MEMORIES OF MENAI BRIDGE

Mae Cymdeithas Ddinesig Bro Porthaethwy yn diweddar ei chofnodion, ffotograffau a'i Gwefan er mwyn ei gwneud yn haws i'r aelodau eu gweld. Byddwn yn ceisio ychwanegu at y rhain yn gyson drwy gydol y flwyddyn ac yn cyhoeddi pigion gyda'ch Cylchlythyr. Mae croeso mawr bob amser i gyfraniadau newydd, yn ogystal â help i adnabod pobl yn y lluniau.

Ewch i'n Gwefan yn
www.menaibridgecivicsociety.org.uk

Menai Bridge Civic Society is updating its records, photographs and Website to make them more accessible to members. We will try to add to these regularly throughout the year and publish extracts with your Newsletter. New contributions are always welcome, as is help with identifying people in photographs.

See our Website at
www.menaibridgecivicsociety.org.uk


Memories of Menai Bridge

Volume 12

GORSAF DRENAU PORTHAETHWY

Byddai adroddiad cryno am yr Orsaf Drenau yn dweud wrthyhych iddi agor ar 1 Hydref 1958. Agorwyd yr orsaf gan y "Chester and Holyhead Railway Company" yn y fan lle'r oedd y brif lein rhwng Caer a Chaergybi yn cyfarfod Rheilffordd y

Gorsaf yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, sylwer ar yr hysbysebion.



Trên cyflym rhwng Caergybi a Manceinion ar ddechrau'r 1960au.

Gorsaf ar ddechrau'r 1970au.



"Bangor and Carnarvon" fel yr oedd bryd hynny. Roedd pedwar platform, dau i bob lein a dau oedd yn ffurfio Ynys yn y canol. Adeilad brics mawr oedd prif adeilad yr orsaf gydag ystafell aros o frics ar y platform ynys. Caeodd yr orsaf i wasanaethau teithwyr ar 14 Chwefror 1966. (gyda diolch i www.disused-stations.org.uk/sites)

Ar 4 Awst 1969, daeth cludo nwyddau i ben, ac ar 5 Ionawr 1970, daeth gwasanaethau teithwyr i ben ar y lein. Ail-ddechreuwyd cario llwythi ar ôl y tân ar Bont Britannia ar 23 Mai 1970.

Atgyweiriwyd y bont ac fe'i hail-agorwyd ar 30 Ionawr 1972.


Wedi'r dyddiad hwnnw caeodd lein Caernarfon am byth ac fe'i codwyd.

Mae lein Arfordir Gogledd Cymru yn

rhedeg trwy safle'r orsaf bellach (ac yn mynd yn un trac yno) ond nid oes dim ar ôl i'w weld erbyn hyn. Mae'r cyfan uchod yn gywir ond nid yw'n rhoi blas i chi o sut beth oedd yr orsaf. Yr olygfa pan roedden nhw'n goleuo'r lampau nwy ar y stryd, ar y ffordd i fyny at yr orsaf, yng ngwyll noson braf o haf. Y cyffro pan roedd yr "Irish Mail" yn rhuo heibio ar ei ffordd i Gaerbybi; roedd y platfform yn ysgyrnygu ac ysgwyd cyn setlo eto. Arogl miniog llwch y glo. Y pleser o glywed clonc y signalau'n cael eu newid.

A thocynnau go iawn, gwerth eu cadw i gofio am eich gwyliau, wedi'u gwneud o gardfwrdd a'u hargraffu'n arbennig. Roeddech chi'n dod â'ch brechdanau past cig eich hun, wedi'u lapio mewn papur gwrthsaim, te a oedd bob amser yn blasu ychydig bach yn rhyfedd, o fflag yr oedd yn rhaid ei chadw ar ei thraed, rhag gollwng. Mae'n teimlo fel 5 munud yn ôl, ond mae'n 60 mlynedd. Fyddwn i'n mynd nôl? Na dydw i ddim mor sentimental â hynny, ond wnâi fyth anghofio chwaith.

Liz M. (Mae rhai o enwau gweithwyr y rheilffordd ar goll – ydych chi'n eu nabod nhw?)



Mark, yn y Swyddfa Docynnau

Evan Roberts Dyn Signal

Mr Morris, Gorsaf-feistr (ail o'r dde)



Pwy yw'r rhain?



Llawer o ddiolch i Norman Kneale, am adael i ni ddefnyddio'i luniau o'i gasgliad, cofnod unigryw.

